**PWYLLGOR TRWYDDEDU**
**13 GORFFENNAF 2022**

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd o bell ddydd Mercher, 13 Gorffennaf, 2023

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr: Glyn Banks Marion Bateman, Geoff Collett, Steve Copple, Rob Davies, Mared Eastwood, Chrissy Gee, Richard Lloyd, Ryan McKeown, Carolyn Preece a David Richardson

**CYFRANWYR:** Rheolwr Tîm (Trwyddedu a Rheoli Pla) ac Uwch Gyfreithiwr

**HEFYD YN BRESENNOL:** Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd – Cymunedau a Busnesau a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 1. PENODI IS-GADEIRYDD

Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer Is-gadeirydd i'r Pwyllgor. Eglurwyd yn absenoldeb y Cadeirydd, y byddai'r Is-gadeirydd a benodir angen cadeirio'r cyfarfod hwn ymlaen llaw cyn i Gadeirydd gael ei benodi'n ffurfiol ar ôl y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Sir.

Cynigiodd y Cynghorydd Richard Lloyd i enwebu'r Cynghorydd Ryan McKeown yn Is-gadeirydd, ac eiliwyd gan y Cynghorydd Carolyn Preece.

Cynigiodd y Cynghorydd Glyn Banks i enwebu'r Cynghorydd Rob Davies, ac eiliwyd gan y Cynghorydd David Richardson.

Cynigiodd y Cynghorydd Mared Eastwood i enwebu'r Cynghorydd Marion Bateman, ac eiliwyd gan y Cynghorydd Chrissy Gee. Wedi hynny, gofynnodd y Cynghorydd Bateman i dynnu ei henw yn ôl.

Ar ôl cynnal pleidlais, cafodd enwebiad ar gyfer penodi'r Cynghorydd Rob Davies yn Is-gadeirydd ei dderbyn.

**PENDERFYNWYD:**

Penodi'r Cynghorydd Rob Davies yn Is-gadeirydd y Pwyllgor.

*(Ar y pwynt hwn, cadeiriodd y Cynghorydd Davies weddill y cyfarfod)*

## 2. DATGAN CYSYLLTIAD

Yn ystod y drafodaeth at eitem rhif 5 (cofnod rhif 4), datganodd y Cynghorwyr Marion Bateman a Chrissy Gee gysylltiad personol fel aelodau o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

## 3. COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 6 Hydref 2021, fel y'u cynigiwyd a'u heiliwyd gan y Cynghorwyr Richard Lloyd a Rob Davies.

Fel y cynigiwyd gan y Cynghorydd Marion Bateman, cytunwyd y byddai llythyr yn cael ei anfon at Tony Sharps, cyn Gadeirydd hirdymor y Pwyllgor, i ddiolch iddo am ei wasanaeth.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y cofnodion yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir a bod llythyr o ddiolch yn cael ei hanfon at gyn Cadeirydd y Pwyllgor.

## 4. DIFFODDYDDION TÂN MEWN CERBYDAU HURIO PREIFAT

Cyflwynodd y Rheolwr Tîm (Trwyddedu a Rheoli Pla) adroddiad yn ystyried newid arfaethedig i Amodau Trwydded Cerbydau Hurio Preifat o ran diffoddyddion tân.

Tra bod yr amodau ar hyn o bryd yn nodi bod rhaid i gerbydau gario diffoddwr tân powdr sych wedi'i wasanaethu sy'n pwyso o leiaf 2kg, roedd sylwadau gan Weithredwr Hurio Preifat trwyddedig ar leihau i 1kg, a fyddai'n dod â'r Cyngor yn unol â gofynion awdurdodau cyfagos. Ceisiwyd cyngor gan y Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac roedd yn nodi y gallai diffoddwr tân 1 litr fod yn ddigonol ar gyfer cerbydau salŵn hurio preifat a thacsi du, a byddai diffoddwr 2kg yn fwy priodol ar gyfer cerbydau hurio preifat mwy sydd yn cario 9 neu fwy o deithwyr. Eglurodd y Rheolwr Tîm fel cerbydau trwyddedig y Cyngor sydd yn cario hyd at 8 o deithwyr, neu 9 gan gynnwys y gyrrwr, gallai'r cyngor gael ei ddehongli'r ffordd arall.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried y cais a ddaeth i law a'r cyngor gan Wwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Cafodd y pedwar opsiwn a awgrymwyd a oedd gofyniad i gario diffoddyddion tân gael ei gymesur i gapasiti'r cerbyd neu a ddylai maint penodol fod yn berthnasol i bob cerbyd. Hefyd gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried diwygio'r amodau i sicrhau bod diffoddyddion tân yn cael eu gosod yn addas o fewn cerbydau.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd Mared Eastwood, nid oedd y Rheolwr Tîm yn gallu cadarnhau amlder yr oedd Diffoddyddion Tân yn cael eu trefnu, ond nodwyd bod cario cyfarpar o'r fath yn fesur diogelwch priodol mewn unrhyw fath o weithle.

Cynigiodd y Cynghorydd Glyn Banks Argymhelliad 1.1 (diffoddyddion tân 1kg o leiaf ar gyfer cerbydau sy'n cario 4 teithiwr, a diffoddyddion tân 2kg ar gyfer cerbydau sydd yn cario 5-8 teithiwr) a oedd yn teimlo'n unol â'r cyngor a roddwyd gan y Gwasanaeth Tân ac Achub, ynghyd ag Argymhelliad 2. Eiliwyd gan y Cynghorydd Carolyn Preece a ddywedodd y bydd yn dod â'r Cyngor yn unol ag amodau awdurdodau cyfagos fel y nodir yn yr adroddiad hwn.

Cadarnhaodd y Rheolwr Tîm bod Argymhellion 1.1 a 1.2 yn ymddangos i gyd-fynd â'r cyngor a roddwyd gan y Gwasanaeth Tân ac Achub. Mewn ymateb i sylwadau gan y Cynghorydd Richard Lloyd, dywedodd bod diffoddyddion tân 1.5kg yn aml iawn yn anodd eu canfod. Yn dilyn cwestiwn gan y Cynghorydd Marion Bateman, eglurodd bod sail resymegol i ddiwygio'r amodau oedd lleihau'r baich ar y gymuned hurio breifat, gan fod rhai gweithredwyr yn teimlo bod

diffoddyddion tân 2kg yn rhy fawr mewn cerbydau capasiti llai, a byddai newid yn rhoi opsiwn i gwmniau cerbydau hurio preifat gyda cheir llai i leihau i 1kg, a hefyd yn alinio'r Cyngor gydag awdurdodau eraill.

Cefnogodd y Cynghorydd Steve Copple yr adroddiad.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Lloyd bod y Cyngor yn cadw'r gofyniad cyfredol i gario diffoddyddion tân o leiaf 2kg ym mhob cerbyd (Argymhelliad 1.4). Fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Bateman.

Ar ôl ystyriaeth bellach, tynnodd y Cynghorydd Banks ei gynnig cynharach a nododd cefnogaeth i Argymhelliad 1.4. Ar ôl pleidlais, cafodd Argymhelliad 1.4 ei dderbyn yn unfrydol.

Yn ystod y drafodaeth ar Argymhelliad 2, ni awgrymwyd ar eirfa benodol gan ei fod wedi'i gytuno y dylai cyfarpar gael ei osod yn ddiogel ac yn briodol o fewn cerbydau unigol. Cafodd hyn ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorydd Bateman a'r Cynghorydd Eastwood.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Cyngor yn cadw gofyniad i gyflawni diffoddyddion tân amrywiaeth powdr sych o leiaf 2kg ym mhob cerbyd; a

(b) Bod yr amodau cyfredol yn cael eu diwygio i ychwanegu diffoddyddion tân gael eu gosod yn ddiogel o fewn y cerbyd.

## 5. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL

Dim

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 10.50am)

..............................

**Cadeirydd**